Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Ffotograffiaeth Ffwndal

# Uned Llygaid

---

**Beth yw Ffotograffiaeth Ffwndal?**
Ffotograffiaeth Ffwndal yw cymryd ffotograffau drwy gannwyll y llygad wedi'i hymledu, y retina a chefn eich llygad i roi cofnod parhaol o gyflwr eich llygad.

**Eich apwyntiad**
Trefnwyd apwyntiad i chi ar gyfer:-

______________________________________________diwrnod

________________________________________________ (dyddiad)

yn _____________________________ yn y Clinig Llygaid, Bloc E,

Ysbyty Brenhinol Gwent.

Ar ôl i chi gyrraedd, ewch i'r dderbynfa.

**Oes angen i mi wneud unrhyw beth cyn y prawf?**
Cymrwch eich deiet arferol a'ch meddyginiaeth arferol.

Tua awr cyn eich apwyntiad, rhowch y diferion llygaid a roddwyd yn eich:-

Byddwch yn cael diferion llygaid a fydd yn gwneud eich golwg yn aneglur. **Sicrhewch fod rhywun yn dod gyda chi i'r clinig. Nid ydym yn argymell i chi yrru.**

**Beth sy'n digwydd yn ystod y prawf?**
Pan fyddwch yn cyrraedd ar gyfer y ffotograffau mae'n bosibl y bydd eich golwg yn aneglur, a fydd yn gwella pan fydd effaith y diferion yn gwanhau ymhen rhai oriau. Yna eir â chi i'r ystafell gamera lle caiff ffotograffau o'ch llygad eu cymryd.

**Pa mor fuan ar ôl y prawf y galla i fynd adref?**
Gallwch fynd adref yn syth ar ôl y prawf ond bydd eich golwg yn aneglur am rai oriau ar ôl y driniaeth.

**O ble caf ragor o gyngor?**
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch ag:-

**NODIADAU PERSONOL**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**